CYNHADLEDD STRATEGAETH IAITH
Rhagfyr 14eg 2010
Sel Williams

Y Strategaeth Iaith a Datblygu Cymunedol
Neu
Datblygu Cymunedol a'r Strategaeth Iaith?

1.Cwestiwn sylfaenol yw i ba raddau y mae'r strategaeth iaith a datblygu cymunedol yn gymharus ac yn cydblethu.
Strategaeth llywodraeth yw hon, nid strategaeth gymunedol fel y cyfryw. Bwriad y papur hwn yw cychwyn o bersbectif cymunedol trwy osod cynseiliau athronyddol i set o gwestiynau mwy penodol a godir ar ddiwedd y papur.

2. Ein man cychwyn yw dilechdid llywodraeth a chymuned, y berthynas rhwng rheoli a rhyddhau. Mae hanes a diwylliant llywodraethu yng Nghymru, neu ar Gymry, wedi bod yn un o reolaeth a rhaniadaeth. Ar y llaw arall, natur fwy cyfannol, integredig a dilechdidol sy'n perthyn i draddodiad cymunedol. Yn gyffredinol mae'r duedd raniadol yn nodweddu cynllunio ieithyddol a ddaw o du llywodraethau.

3.Mae set o werthoedd ac egwyddorion yn perthyn i faes datblygu cymunedol. Fe'u hamlinellir yn y *Fframwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Ddatblygu Cymunedol Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad. Fe'u nodir isod ynghyd â chwe chydran allweddol i ddatblygu cymunedol.

Gwerthoedd ac Egwyddorion
Cyfiawnder cymdeithasol
Ymreolaeth
Cydweithio a chyd-ddysgu
Cymunedau cynaliadwy
Cyfranogiad
Adlewyrchu neu ôl-fyfyrio

Cydrannau allweddol
Arweiniad y gymuned
Cynnwys pob rhan o'r gymuned
Newid cydbwysedd grym
Proses barhaus
Proses ddysgu
Proses holistig

Mae Iaith Pawb yn un ymysg nifer helaeth o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad sy'n berthnasol i'r Fframwaith datblygu cymunedol hwn. Un ymhlith Ymestyn Hawliau (pobl ifanc), Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Strategaeth i Bobl Hŷn, Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol, Her Iechyd Cymru, Strategaeth Amgylchedd Cymru, Cynllun Datblygu Gwledig, Strategaeth Mentrau Cymdeithasol, Cartrefi Gwell i Bobl Cymru,

Gwlad sy'n Dysgu, Cynllun Trafnidiaeth ac yn y blaen. Y tueddiad fu i gyfyngu ystyriaethau iaith i bolisi iaith ar wahân yn hytrach nag ar draws polisïau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Ar lawr gwlad, o bersbectif cymuned, mae rhyngberthynas swyddi, tai, addysg, iechyd, trafnidiaeth ac yn y blaen yn amlwg. Nid ystyriaethau ar wahân i'r rhain yw ieithoedd a diwylliannau.

Mae'n ymddangos bod y mentrau iaith yn gynyddol yn mabwysiadu, i raddau, egwyddorion ac ymarfer datblygu cymunedol. Ond gellir dadlau o bersbectif cymunedau mai datblygu cymunedol ddylai fod y cynsail gydag ystyriaethau iaith wedi'u cydblethu ag ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i greu cyfanwaith. Felly, dadleuir dros le anhepgor i'r Gymraeg o fewn datblygu cymunedol, yn hytrach nag ystyriaeth ar wahân. Mewn modd cyffelyb y nod ddylai fod priod le i'r Gymraeg o fewn ac ar draws strategaeth ddatblygu genedlaethol integredig.

4.Rydym yn gyfarwydd ag asesu effeithiau amgylcheddol cynlluniau datblygu. Mewn sawl gwlad defnyddir prawf tlodi i geisio rhagweld a mesur beth fuasai effeithiau gwahanol ddarpar bolisïau economaidd ar dlodi ac anghyfartaledd. Beth am brawf iaith? Hynny yw, asesu darpar bolisïau cenedlaethol yn nhermau eu heffeithiau ar y Gymraeg. Yn amlwg buasai prawf iaith yn berthnasol i drawstoriad eang o bolisïau llywodraeth. Mae'r un egwyddor yn berthnasol ar lefel leol ac yn fan cychwyn ar gyfer cynllunio cymunedol integredig.

5.Wrth ystyried Llan Ffestiniog fel enghraifft rhai o brif anghenion y gymuned yw gwaith, tai, addysg berthnasol, cadw pobl ifanc ac yn y blaen. Hynny yw, datblygiad cynaliadwy o ran amgylchedd, economi a diwylliant yn ei ystyr ehangaf. Yn y cyd-destun hwn y perthyn unrhyw strategaeth iaith ystyrlon. Noder, wrth fynd heibio, gymaint fu ein pwyslais ar addysg Gymraeg ond y diffyg sylw a roddir i'r cynnwys o'i gymharu â'r cyfrwng.

6.Edrychir yma ar brofiad un fenter gymunedol yn Llan Ffestiniog fel modd o daflu goleuni ar gwestiwn cyffredinol. Mae trigolion y pentref yn cynllunio i brynu gwesty hanesyddol y Pengwern a'i ail agor fel tafarn, bwyty, gwesty a hostel a fydd yn ased amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol gwerth chweil dan berchnogaeth a rheolaeth gymunedol. Bu cymorth gan unigolion sy'n gweithio i ystod o gyrff cyhoeddus yn hynod werthfawr ond problem fwyaf y fenter yw ceisio ffitio anghenion y prosiect i drefn a biwrocratiaeth llywodraeth. Y cwestiwn cyffredinol yw ai'r gymuned ddylai ffitio anghenion llywodraeth ynteu lywodraeth ddylai ffitio'r gymuned. O'r bôn i'r brig ynteu'r brig i'r bôn?

7. Y gorau y gall llywodraethau ei wneud dan gyfalafiaeth yw cynllunio mynegol. Mewn economi farchnad gyda dadreoli, globaleiddio a phreifateiddio cynyddol mae gafael llywodraeth ar yr economi ac ar gynllunio'n gwanhau. Mae effeithiau cynlluniau Tesco ar gymunedau cefn gwlad a chwmnïau traws gwladol ar Gymru'n gyffredinol yn enfawr. Felly, dim ond i raddau cyfyngedig y gall unrhyw lywodraeth gynllunio iaith mewn cymdeithas pur anghynlluniedig. Mae strategaeth iaith dan yr amodau hyn yn fater o wneud be fedrwn o fewn ffiniau tra gyfyng.

8. O ystyried natur cyfalafiaeth heddiw cyfyngedig yw'r hyn y gall datblygu cymunedol yn ogystal â chynllunio ieithyddol eu cyflawni. Chwarae ar yr ymylon yr ydym gan amlaf. Ond gwell gwneud be fedrwn o fewn yr hualau. Daw hyn a ni'n ôl i'r berthynas rhwng datblygu cymunedol a strategaeth iaith a'r ddadl ynglŷn â'r Gymraeg fel ystyriaeth greiddiol a threiddiol mewn datblygu cymunedol.

9.Rhan o broblem cymunedau yw'r ymdeimlad o ddibyniaeth a grëwyd gan y wladwriaeth. Faint fedr cymunedau ei wneud yn nannedd y sefyllfa economaidd a pholisïau tai, gwaith, canoli, globaleiddio a phreifateiddio sy'n ein herbyn? Mewn cyfnodau cynharach bu'r Cymry'n weithgar yn gymunedol fel y tystia hanes addysg, crefydd, neuaddau gweithwyr, cymdeithasau tai, y Co-op ac yn y blaen. Mae'n oes wahanol heddiw ac mae gofyn meddwl o'r newydd am gymunedau a rhwydweithiau. Ar draws y byd mae cymunedau'n sylweddoli potensial gweithredu'n gadarnhaol a'r angen cynyddol i wneud hynny fel cyfraniad i be mae'r New Economics Foundation yn ei alw'n 'The Great Transition'. Trawsnewid amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd eang sydd dan sylw. Rhaid gosod y Gymraeg yng nghanol y mudiad cymunedol trawsnewidiol. Er gwaethaf gwendidau cynlluniau fel Cymunedau'n Gyntaf, y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ac yn y blaen mae egin newydd yma y gellir ei feithrin.

10. Rydym yn sôn am hawliau ieithyddol unigolion ond prin yw'r sôn am hawliau cymunedol ieithyddol neu strategaethau cymunedol iaith er bod hyn ddim yn anghyffredin mewn gwledydd eraill.
Sylwer mai ymwneud yn bennaf â hawliau cyfyngedig unigolion sydd yma. Nid oes cymaint o sôn am gymunedau, am amddiffyn cymunedau Cymru nag am ddatblygiad cymunedau Cymraeg. Nid yw'r pleser o dalu fy miliau yn Gymraeg yma nac acw o'i gymharu â chael cydfyw yn Gymraeg mewn cymuned, neu o leiaf ymwneud ag eraill i raddau sylweddol yn Gymraeg.

11.Mae byd o wahaniaeth rhwng polisïau ar bapur a realiti gweithredu ar lawr gwlad. Er enghraifft, mae agweddau clodwiw i Iaith Pawb. Mae'n sôn am gefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Ond nid oes iddo amserlen na thargedau pendant. Llywodraeth y Cynulliad sy'n ei fonitro ac yn adrodd yn ôl i'w hunan fel bod pob adroddiad blynyddol yn rhestru tudalennau o lwyddiannau ond rydym yn amau mai bach o gynnydd a fu mewn gwirionedd.

12. Mae cryn dystiolaeth bod y rhod yn troi o blaid y Gymraeg. Wedi'r cwbl y diwylliant Eingl-Americanaidd, yn ystyr anthropolegol y gair diwylliant, sydd mewn argyfwng. Argyfwng amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Rhan o'u problem yw'r
"…rhemp sydd i law'r dadelfennwr
A gyll rhwng ei fysedd fyd." (Waldo)

Gallasai persbectif cyfannol ein hiaith a'n diwylliant helpu i'w hachub rhag y rhemp. Rhaid i ni gymryd y cyfrifoldeb dros ddatblygu cymunedau Cymraeg nid yn unig er ein mwyn ni ond hefyd er mwyn cyfrannu i'r byd tu allan yr ydym yn gymaint rhan ohono.

13. Mae tri chwestiwn sylfaenol yr awgrymir eu trafod.

1) Pa strategaeth sydd ei angen i ddatblygu'r Gymraeg fel iaith gymunedol?
2) Beth yn y Strategaeth arfaethedig sy'n hwb i'r Gymraeg fel iaith gymunedol?
3) Sut mae cryfhau'r Strategaeth o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned?

14.Mae sawl cyfeiriad cyffredinol a amlygir yn y ddogfen ymgynghori, *Iaith fyw: iaith byw,* i'w croesawu. Tynnir sylw yn arbennig at y dyfyniadau a ganlyn.

Yn Y Weledigaeth (tud. 1) mae sôn yr "hoffem weld…Mentrau cyfeiriedig ar draws Cymru er mwyn cryfhau'r Gymraeg o fewn cymunedau."

"Bydd y Llywodraeth yn prif ffrydio'r iaith mewn cynlluniau datblygu cymunedol a chynlluniau adfywio cymunedol yng Nghymru." (tud. 9)

"Creu *Ardaloedd Hybu'r Gymraeg* ar draws Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y Mentrau Iaith a sefydliadau eraill" (tud. 9)

"Datblygu prosiect *Trefi a Dinasoedd Dwyieithog* er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith mewn lleoliadau trefol." (tud. 9)

"Prif ffrydio'r Gymraeg ymhellach i waith y Llywodraeth ar ddatblygu polisi a chyflenwi gwasanaethau.
Prif ffrydio'r iaith i weithgareddau polisi strategol megis Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Datblygu Gwledig.
Bod uwch-swyddog ym mhob un o Gyfarwyddiaethau'r Llywodraeth ac ym mhob Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am brif ffrydio'r Gymraeg." (tud. 19)

"Byddwn yn ystyried sut orau i ymateb i'r cysylltiadau rhwng yr economi leol, cyfleoedd gwaith, y farchnad dai leol, prosesau ymfudo, a'u heffaith ar gynaliadwyedd yr iaith ar lefel leol" (tud. 20 a 21)